Adroddiad Cyfarfod 12:05:21
Anwen Iorwerth - 'Ar Ysgwyddau Cewri'

Croesawodd Anita, y Llywydd, yr aelodau i gyfarfod 'Zoom'. Estynnodd groeso cynnes i Nan Jones wedi dychwelyd ar ôl cyfnod yn Sbaen. Dymunodd benblwydd hapus i Anne a Meira sy'n dathlu ym Mai ac i Glenys a fydd yn dathlu penblwydd arbennig y mis nesaf. Llongyfarchodd merch Eleri Warrington ar ei phriodas ddiweddar a llongyfarchodd Elis, ŵyr Gwyneth Jones, Llysgwynt ar gael ei apwyntio yn Lysgennad i'r Bwrdd Marchnata Gwlan. Cydymdeimlodd â theulu'r diweddar Alys Jones a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen.

Yn ystod Ebrill bu rhai o'r aelodau yn cymryd rhan yn ymgyrch genedlaethol MYW i 'Guro'r Corona'n Camu'. Y nôd oedd codi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd i symud a cadw'r meddwl yn iach. Fe lwyddodd yr aelodau i gyfrif 3,949,785 o gamau. Da iawn ferched!

Yn ystod Ebrill cafodd yr aelodau gyfle i ethol swyddogion 2021-2022. Etholwyd Anne Elis yn Llywydd, Liz Watkin yn Ysgrifennydd a Gwyneth Jones, yn Drysorydd. Diolchodd Anita i'r dair am eu parodrwydd i dderbyn y cyfrifoldebau.

Estynnodd Anita groeso cynnes i'n gwraig wâdd, Awen Iorwerth sy'n Llawfeddyg Orthopedeg. Ganed Awen yn y Rhondda cyn i'w theulu symud i Rydymain ac yna i Fôn. Derbynniodd ei haddysg gynradd yn Rhydymain a Llandegfan cyn mynd ymlaen i Ysgol David Hughes ac yna i Brifysgol Caerdydd i astudio meddygaeth. Testun sgwrs Awen oedd 'Ar Ysgwyddau Cewri'.

Treuliwyd orig ddifyr yn gwrando arni yn siarad am y 'cewri' a ddylanwadodd ar ei bywyd a'i gyrfa. Dylanwad athrawon, ei rhieni a'i theulu a'r hen feddygon esgyrn o Fôn a ddaeth yn enwog trwy'r byd.

Un o'r 'cewri' oedd Hugh Owen Thomas (a ddyfeisiodd 'Splint Thomas') gor-ŵyr Evan Thomas, y meddyg esgyrn cyntaf ym Môn. Dyfeisiodd Hugh Owen Thomas y splint ar gyfer sythu coesau plant a phobl oedd wedi camu oherwydd effaith y diciâu ac fe'i defnyddiwyd, hefyd, yn y Rhyfel Byd Cyntaf i wella milwyr oedd wedi torri eu coesau. Fe ddefnyddir 'Splint Thomas ' hyd heddiw ac fe adnybyddir Hugh Owen Thomas fel tad orthopedeg modern.

Un arall o ddisgynyddion Evan Thomas oedd Sir Robert Jones, nai Hugh Owen Thomas, a sefydlodd Ysbyty Orthopedeg Gobowen.

Yn ystod ei gyrfa cafodd Awen gyfle i weithio ac i hyfforddi gyda'r 'cewri' sy'n lawfeddygon orthopedeg arloesol yn Cape Town, Boston, Efrog Newydd a Sydney. Erbyn hyn mae'n ymgynhorydd arbenigol yr ysgwydd a'r penelin.

Ar ôl dychwelyd i Gymru fe benderfynodd ar yrfa'n addysgu. Sefydlodd 'Y Gymdeithas Feddygol' er mwyn cadw myfyrwyr meddygaeth Cymraeg yng Nghymru. Erbyn hyn mae'n Gyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant Llawfeddygon. Yn rhinwedd ei swydd caiff gyfle i drosglwyddo ei harbenigedd i'r genhedlaeth nesaf.

Terfynnodd ei sgwrs gyda'r 'cewri' o blith ei theulu, yn bennaf ei rhieni am eu dylanwad a'u cefnogaeth amhrisadwy.

Diolchwyd i Awen Iorwerth gan Nan Rowlands am sgwrs hynod o ddifyr.

Mis nesaf byddwn yn dod a'r tymor i ben gyda taith gerdded o gwmpas yr ardal a thê prynhawn yng nghaffi 'Perthyn'.